cwmpas

# Creu newid economaidd a chymdeithasol

## Adolygiad Gwerth Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

Mai 2022



# Cynnwys

Cyflwyniad ..... 3
Methodoleg ..... 3
Canfyddiadau ..... 4
Diffiniad o werth cymdeithasol ..... 5
Gwerth cymdeithasol a buddion cymunedol ..... 6
Ystyr gwerth cymdeithasol i sefydliadau ..... 7
Gwerth cymdeithasol a chaffael ..... 8
Ymgysylltu â chymunedau ..... 9
Gwerth cymdeithasol o fewn contractau ..... 9
Mesur ..... 10
Themâu, Mesurau a Chanlyniadau Cymru ..... 10
Dull cyfannol ..... 12
Effaith ar gyflenwyr ..... 14
Adnoddau ..... 15
Arfer da a rhannu ..... 16
Rôl Llywodraeth Cymru ..... 16
Cyd-destun Ehangach ..... 16
**CAFFAEL LLESIANT YNG NGHYMRU: Adolygiad o'r modd y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn trwytho caffael yng Nghymru** ..... 17
**Adeiladu Cyfoeth Cymunedol yng Nghymru (Adroddiadau rhanbarthol amrywiol, Gwanwyn 2022)** ..... 18
**Caffael yn yr Economi Sylfaenol; Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau (Chwefror 2020)** ..... 19
Casgliad ..... 20
Argymhellion ..... 20

## Cyflwyniad

Comisiynwyd Cwmpas (sef Canolfan Cydweithredol Cymru gynt) gan y Cyfarwyddwr Caffael a Masnachol o fewn Llywodraeth Cymru i fapio'r maes gwerth cymdeithasol yng Nghymru fel y mae ar hyn o bryd.

Cydnabuwyd bod 'gwerth cymdeithasol' yn derm eang sydd wedi’i ddefnyddio i ddisgrifio effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd y camau a gymerir gan gymunedau, sefydliadau, llywodraethau ac unigolion. Mae caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn un o nifer o feysydd pwerus lle gellid creu canlyniadau gwerth cymdeithasol er lles Cymru, ac mae’n hysbys bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gwario dros £6 biliwn bob blwyddyn yn caffael amrywiaeth o nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Mae hyn yn cynrychioli bron i draean o gyfanswm gwariant blynyddol datganoledig Cymru, ac amcangyfrifir y bydd gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn gwario dros £60 biliwn dros y degawd nesaf.

## Methodoleg

Amlinellodd Llywodraeth Cymru restr o gyfranogwyr yr oeddent yn awyddus iddynt fod yn rhan o’r gwaith ymchwil.  Yn dilyn e-bost gan y Cyfarwyddwr Caffael a Masnachol a oedd yn egluro'r rheswm dros y gwaith a chwmpas y gwaith, cysylltodd Cwmpas â'r unigolion dan sylw a threfnwyd cyfweliadau rhithwir â hwy.

Cytunwyd ar gwestiynau cyfweliad lled-strwythuredig gyda Llywodraeth Cymru a chynhaliwyd y cyfweliadau rhwng diwedd mis Ionawr a mis Mawrth 2022. Cyfwelwyd â chyfanswm o 36 o bobl o 18 o wahanol sefydliadau, gan gynnwys nifer o Adrannau Llywodraeth Cymru.

Cafodd y rhan fwyaf o'r cyfweliadau eu recordio ar ffurf sain a defnyddiwyd dyfyniadau dienw i roi syniad o’r materion a nodwyd.

## Canfyddiadau

Cafwyd dau ganfyddiad amlwg o'r cyfweliadau. Y cyntaf oedd bod y rhan fwyaf o'r cyfweleion o'r farn bod y darlun cyffredinol o werth cymdeithasol yng Nghymru yn ddryslyd, gyda diffyg consensws ynglŷn â'r hyn y mae gwerth cymdeithasol yn ei olygu mewn gwirionedd. Mae'n ymddangos bod dryswch yn bodoli ar wahanol lefelau:

- Ystyr gyffredinol gwerth cymdeithasol, o fewn cyd-destun Cymreig.
- Sut i roi gwerth cymdeithasol ar waith; o fewn caffael ac ar lefel strategol.

Mae'r dyfyniadau canlynol yn dangos y darlun dryslyd:

*"Mae'r dirwedd ddryslyd yn arwydd o ba mor rhanedig y mae popeth wedi bod*".

*"Mae digon o dwrw'n cael ei wneud ynghylch gwerth cymdeithasol, y cysyniadau gwahanol, gwahanol agendâu, gwahanol fentrau."*

*"Mae angen rhesymoli'r holl dermau hyn. Mae angen i ni gyd weithio o'r un ddalen*".

*"Gan fod gan bobl wahanol ganfyddiadau, a gwahanol ganfyddiadau o ran sut i'w fesur. Byddai'n ein helpu'n gyffredinol pe bai pawb yn dilyn yr un drefn*".

*"Am wn i, nid oes dull unedig yn cael ei weithredu a'i ystyried ar hyn o bryd ac mae hynny'n arwain at ddryswch*".

*"Ble mae'r dull cyson y gallwn ei ddefnyddio dros Gymru gyfan? Nid oes metrig safonol. Does dim dull gweithredu safonol nac adroddiadau safonol. Felly, ni allwn gael darlun cydlynol o'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru*".

Yr ail fater oedd yr angen i edrych ar werth cymdeithasol yng nghyd-destun Cymru drwy lens Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y Ddeddf Llesiant), a hynny o ran y saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio. Mae angen i werth cymdeithasol hefyd adlewyrchu canlyniadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y Ddeddf. Tynnodd cyfranogwyr sylw at y ffaith bod y gwerth cymdeithasol, fel y'i dehonglwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012, y cyfeirir ati yma fel 'y Ddeddf Gwerth Cymdeithasol', yn ddeddfwriaeth Lloegr yn hytrach na Chymru.

*"Rwy'n credu bod y term gwerth cymdeithasol yn cyfeirio at ddarn o ddeddfwriaeth yn Lloegr, a'r Ddeddf Gwerth Cymdeithasol yn enwedig. Yma, mae gennym Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n mynd ymhellach*".

*Roedd nifer o'r cyfranogwyr o'r farn bod cyfleoedd i gynnwys canlyniadau diwylliannol yn aml yn cael eu methu:*

*"Yn bendant, mae tueddiad o fewn contractau caffael i hepgor diwylliant, neu ddimensiwn diwylliannol llesiant; yr hyn sy'n digwydd yw bod y Ddeddf Gwerth Cymdeithasol yn cael ei mabwysiadu gyda phopeth sy'n cyd-fynd â'r gwerth cymdeithasol hwnnw, ond yn bwysig nid yw hynny'n adlewyrchu'r dimensiwn diwylliannol."*

Daeth y themâu canlynol i'r amlwg yn ystod y cyfweliadau hefyd:

## Diffiniad o werth cymdeithasol

Un o brif ganlyniadau'r gwaith ymchwil yw bod Llywodraeth Cymru wedi dechrau ystyried diffiniad o werth cymdeithasol. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oedd gan eu sefydliadau hwy ddiffiniad o werth cymdeithasol yn barod, ac os felly, beth oedd y diffiniad hwnnw. Rydym yn gwybod bod sawl ffordd o ddiffinio gwerth cymdeithasol, a chyfeiriodd un cyfranogwr at ddarn o waith ymchwil a oedd wedi amlygu 18 o wahanol ddiffiniadau.

Nifer fechan o sefydliadau sydd wedi diffinio gwerth cymdeithasol o fewn eu sefydliadau. Yn gyffredinol, mae'r diffiniadau hyn yn cael eu hystyried o fewn cyd-destun caffael. Mae rhai sefydliadau'n defnyddio diffiniad Coleg Masnachol y Llywodraeth (2020), fel yr amlinellir yn WPPN 01/20: - Mae 'Gwerth Cymdeithasol' yn "derm eang a ddefnyddir i ddisgrifio effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y camau a gymerir gan gymunedau, sefydliadau, llywodraethau ac unigolion".

Mae eraill yn defnyddio diffiniad Social Value UK o werth cymdeithasol:
"Mae gwerth cymdeithasol yn ffordd o feddwl am sut mae adnoddau prin yn cael eu dyrannu a'u defnyddio. Mae'n golygu edrych y tu hwnt i bris pob contract unigol ac edrych ar y budd cyfunol i gymuned pan fydd corff cyhoeddus yn dewis dyfarnu contract."

Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o'r sefydliadau y buom yn siarad â hwy yn diffinio gwerth cymdeithasol, a'u bod yn hytrach yn disgwyl arweiniad gan Lywodraeth Cymru.

Wrth geisio diffinio gwerth cymdeithasol mewn cyd-destun Cymreig, cytunwyd bod angen cysylltiad amlwg rhwng y diffiniad â'r Ddeddf Llesiant:

*"Mae cysylltiad rhwng amcanion llesiant yr awdurdod lleol a sut y gall gwerth cymdeithasol trwy gaffael gyfrannu at yr amcanion llesiant hyn. I mi, yn sylfaenol, pan fyddwn yn edrych ar y diffiniad, bydd angen dangos ei fod yn rhoi ystyriaeth i'r Ddeddf, gan gyfrannu'n benodol at amcanion llesiant".*

*"Ceir llesiant cymdeithasol, llesiant amgylcheddol, llesiant economaidd, llesiant diwylliannol, ar sail y cysylltiadau clir â llesiant cenedlaethau'r dyfodol, dyna'r flaenoriaeth wirioneddol sydd gan lesiant cenedlaethau'r dyfodol".*

*"O ran diffinio, rwy'n credu mai'r peth anodd yw sicrhau nad yw'n golygu pethau gwahanol i wahanol bobl. Mae diffinio yn waith anodd iawn, ac o safbwynt Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, rhaid sicrhau bod y pedwar dimensiwn llesiant yn cael eu hystyried, sef llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol."*

*"Beth yw Gwerth cymdeithasol? Wel, mae ganddo sawl gwahanol ddiffiniad. Ond, nid oes un diffiniad diffiniol. Mae gan bawb safbwyntiau gwahanol. I mi, dylid defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel ein man cychwyn.*
*Dyna'r ddeddfwriaeth sydd angen cael ei gweithredu ym mhopeth a wnawn. Dyna sy'n gyrru penderfyniadau polisi Llywodraeth Cymru. Mae'n un o nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth, ond mae'n hynod bwysig, ac yn rhywbeth nad oes ganddyn nhw yn Lloegr, rhywbeth yr ydym yn hynod ffodus o'i gael yma".*

## Gwerth cymdeithasol a buddion cymunedol

Roedd llawer o sefydliadau fel petaent yn defnyddio'r termau 'gwerth cymdeithasol' a 'buddion cymunedol' yn gyfnewidiol, ond yn gyffredinol roeddent yn cydnabod bod buddion cymunedol yn un elfen o'r cysyniad ehangach o werth cymdeithasol; fel yr amlinellir yn WPPN 01/20.

*"Weithiau, byddwn ni'n dechrau siarad am werth cymdeithasol, ac yna byddwn yn troi at y Pecyn Mesur Buddion Cymunedol, a Gwerth Cymru wedyn. Mae 'na lawer o dermau cyfnewidiol, sy'n ei wneud yn wahanol dw i'n meddwl ac yn peri dryswch".*

*"Ac mae'n mynd yn flêr wedyn, tydi? Am ein bod ni'n dal i ddefnyddio dau derm, a'r ddau ohonyn nhw ag arwyddocâd cymdeithasol".*

*"Rydym wedi gweld ffrwydrad yn yr eirfa sy'n ymwneud â chaffael. Ond roedd 'buddion cymunedol' yn eithaf llwyddiannus, onid oedd? Rwy'n gwybod ei fod o gwmpas ers cryn dipyn o flynyddoedd bellach, ond bu'n llwyddiannus o ran cael sefydliadau i'w fabwysiadu, er ei fod, yn amlwg, yn gyfyngedig iawn oherwydd ei fod yn canolbwyntio ar gyflogaeth a hyfforddiant yn unig, ac rwy'n credu bod pobl yn cydnabod yr angen am ddull gweithredu ehangach o lawer".*

*"Roedd Cymru ar flaen y gad gyda'r model buddion cymunedol. Y feirniadaeth oedd na*

*chafodd adnoddau.  Ni chafodd ei ddatblygu. Wnaeth o ddim symud, a wnaeth yna ddim byd ddigwydd. Ac yna mae amser yn symud yn ei flaen, ac mae'r rhai sy'n arwain yn dweud, wel, dyma beth newydd sbon danlli grai o'r enw gwerth cymdeithasol; mi ddilynwn ni y ffasiwn newydd yma hefyd*"

Roedd cyfranogwyr hefyd yn teimlo bod angen mynd i'r afael â gwerth cymdeithasol a'i ymgorffori ar lefel strategol:

*"Rydym yn osgoi defnyddio'r geiriau 'buddion cymunedol' o gwbl, gan fod y term yn cael ei ddefnyddio ar lefel weithredol, ond mewn gwirionedd mae gwerth cymdeithasol yn llawer ehangach. Ac mewn gwirionedd, mae gwerth cymdeithasol yn ymwneud â gwneud penderfyniadau strategol. Mae'n ymwneud â dylanwadu, mae'n ymwneud â llawer mwy na chyflawni ar lawr gwlad. Mae'n golygu ei wneud yn rhan o bwy ydym ni, o bopeth a wnawn a pham rydym yn ei wneud*".

Yn ddiddorol, cafodd y term 'gwerth cymdeithasol' ei gwestiynu gan un cyfranogwr, gyda'r awgrym y dylid defnyddio'r termau canlynol, yng nghyd-destun Cymru a'r cysylltiadau amlwg â'r Ddeddf Llesiant; 'buddion llesiant', 'gwerthoedd llesiant' neu 'ganlyniadau llesiant'.

## Ystyr gwerth cymdeithasol i sefydliadau

Yn y cyfweliadau, gofynnwyd beth oedd ystyr gwerth cymdeithasol o fewn eu sefydliadau. Unwaith eto, roedd yn amlwg bod y rhan fwyaf o sefydliadau, yn enwedig y rhai o'r sector cyhoeddus, mewn cyfnodau gwahanol iawn o ran gweithredu gwerth cymdeithasol. I'r rhai a oedd wrthi'n ymgorffori neu wedi ymgorffori gwerth cymdeithasol o fewn prosesau caffael a pholisïau ehangach, roedd pwyslais ar y gwerth y gellid ei gydnabod ar gyfer cymunedau lleol ac y gellid ei lywio gan flaenoriaethau lleol.

"*I mi, mae gwerth cymdeithasol yn ymwneud â sut y gall sefydliadau ddangos eu bod yn gwario arian cyhoeddus, ond fe ddylai fod yn fodd iddynt ddangos beth yw buddion a chanlyniadau ehangach gwario'r arian hwn... mae'n ymwneud â'r gwerth, y gwerth ehangach, y gallai caffael ei greu, y gwerth y dylai caffael ei greu*".

*"Mae'n golygu ein bod ni'n rhoi arian yn ôl i'r cymunedau lle'r ydym ni'n byw. Os gallwn brynu'n lleol, pam ddylen ni beidio? Hefyd, mae'n edrych ar ffyrdd y gallai cyflenwyr roi rhywfaint o werth ychwanegol i'r cymunedau lleol".*

*"Mae'n ffordd o greu sir sy'n lle braf i'n trigolion, nawr ac yn y dyfodol, i'n plant ac i blant ein plant. Mae'n ymwneud â lle*".

*"Byddwn i'n dweud ei fod yn ymwneud â defnyddio'r grym sydd gennym ni ym maes caffael, wrth gaffael i Gymru gyfan, er budd cymunedau a dinasyddion Cymru*".

*"Gallwn dreulio llawer o amser yn dadlau am ddiffiniadau ond, mewn gwirionedd, y cyfan sydd angen inni ei wneud yw sicrhau gwerth cymdeithasol. Yr hyn a'm trawodd am werth cymdeithasol ar y dechrau, yw ei fod yn rhywbeth go iawn, yn werth go iawn. Mae'n werth ychwanegol go iawn. Nid sôn am fesur rhywbeth sydd eisoes yno ydym ni, na sôn ychwaith am rywbeth y byddwn wedi'i gael beth bynnag. Rydym ni'n sôn am newid pethau, newid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu, newid y mathau o gynhyrchion rydym ni'n eu prynu, a newid hynny mewn ffordd sy'n well i Gymru"*.

*"Mae Cynghorwyr yn tueddu i ganolbwyntio ar flaenoriaethau lleol. Pan fyddwn yn trafod gwerth cymdeithasol, rydym yn tueddu i siarad am amcanion ein cyngor yn hytrach nag amcanion ar lefel genedlaethol"*.

## Gwerth cymdeithasol a chaffael

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil yn gweithio o fewn timau caffael ac yn ystyried mai fel swyddogaeth gaffael y gwelwyd gwerth cymdeithasol ar y dechrau. Mae sefydliadau bellach yn cydnabod bod gwerth cymdeithasol yn derm ehangach sydd â chylch mwy o lawer, a bod angen ei ymgorffori ym mhob rhan o'r sefydliad. Er bod hyn yn cael ei gydnabod, i lawer o sefydliadau, mae'n ddyddiau cynnar o ran datblygu eu dull o ymdrin â gwerth cymdeithasol ar lefel sefydliadol ac o fewn eu swyddogaeth gaffael.

*"Dydw i ddim yn credu ei fod yn gyd-ddigwyddiad, pan fyddwn yn siarad am werth cymdeithasol, ein bod yn tueddu i wneud hynny mewn cyd-destun caffael. Mae'r ddau beth fel petaent wedi'u plethu'n dynn iawn. Felly problem gaffael yw gwerth cymdeithasol, fwy neu lai"*.

*"Beth ydyw, mewn gwirionedd, yw sut yr ydym ni'n gwella caffael. Sut mae gwella'r ffordd yr ydym yn caffael. Sut all ein gwaith caffael helpu i gyflawni polisïau ein harweinwyr, mae gwerth cymdeithasol yn rhan fawr o hynny.*

*"Nid swydd un person yw caffael yn fy marn i, mae caffael effeithiol angen timau traws-swyddogaethol o fewn eich sefydliad a thu hwnt. Mae'n debyg bod hynny'n golygu gwerth cymdeithasol wrth gyflenwi, gwneud y mwyaf o werth cymdeithasol, ac nid brwydr un person ydyw, mae'n fwy na hynny"*.

Er mwyn defnyddio gwerth cymdeithasol o fewn caffael, roedd rhai sefydliadau wedi datblygu prosesau i annog comisiynwyr a phrynwyr i ddechrau ystyried gwerth cymdeithasol cyn gynted â phosibl o fewn y broses cynllunio caffael. Tynnodd cyfranogwyr sylw at y ffaith bod ymgorffori gwerth cymdeithasol yn gofyn am ymdrech ac adnoddau. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddi a gwella ymwybyddiaeth yn ogystal â rhoi cymorth i staff sy'n caffael nwyddau a gwasanaethau. Mae angen

sefydlu prosesau sy’n caniatáu staff sy'n caffael nwyddau a gwasanaethau i ymgynghori ac i gynllunio'r broses gaffael cyn gynted â phosibl, a hynny gan ystyried gwerth cymdeithasol.

*"Mae'n ymwneud â chynllunio'r broses a pha werth cymdeithasol rydym eisiau ei gael. Fel comisiynwyr, rydym ni yng nghanol y gwaith hwnnw, ac mae’n rhaid i ni ddeall pwy yw ein rhanddeiliaid, pwy yw ein cymunedau, gan fynd at wraidd hynny a chreu gwasanaethau sy'n addas ar gyfer y dyfodol, ac yna cynnwys pob cyflenwr yn hynny, trwy’r broses gaffael a wedi hynny hefyd*".

## Ymgysylltu â chymunedau

Yn y cyfweliadau, pwysleisiodd sawl un bod angen ymgysylltu â chymunedau er mwyn sicrhau’r buddion mwyaf posibl.

*"Beth yw ystyr gwerth cymdeithasol? Fel awdurdodau contractio, y perygl yw ein bod yn ceisio rhagweld ystyr gwerth cymdeithasol a darogan anghenion cymunedau, a hynny heb ymgysylltu â hwy mewn gwirionedd. Gallem ddweud ein bod yn mynd i greu 15 prentisiaeth yn y contract hwn, ond mewn gwirionedd, os nad prentisiaethau yw'r flaenoriaeth i gymuned benodol, nid yw'n briodol*".

*"Os ydym ni’n ymgysylltu â’r gymuned, yn ymgysylltu â grwpiau cymunedol a chynghorau lleol, i weld a oes gwir angen am rywbeth, dylem sylwi a oes rhywbeth yn gysylltiedig â thestun y contract, a dyna ddylem ni ei greu fel gwerth cymdeithasol. Dyna fydd yn bwysig i bobl*".

Cydnabuwyd hefyd y byddai llawer o gyrff yn y sector cyhoeddus yn hoffi gweld ymgysylltu â'r gymuned yn cael ei gynnwys o fewn prosesau caffael.

Teimlai un cyfranogwr hefyd y dylid ystyried ymgysylltu â chymunedau ar ôl i'r contract gael ei gyflenwi, a hynny er mwyn gweld pa effaith y cafodd y gwerthoedd cymdeithasol hynny a fesurwyd ar y rhai a oedd i fod i dderbyn y budd.

## Gwerth cymdeithasol o fewn contractau

O'r sefydliadau y buom yn siarad â hwy, a oedd yn cynnwys gwerth cymdeithasol neu fuddion cymunedol o fewn tendrau, roedd bron pob un ohonynt yn sgorio'r elfennau hyn. Roedd y pwysoliad yn amrywio rhwng 10% a 15%. Roedd y dulliau gwerthuso hefyd yn wahanol. Roedd rhai’n defnyddio systemau meddalwedd, roedd rhai wedi datblygu matricsau gwerthuso ac roedd rhai’n defnyddio asesiadau goddrychol.

## Mesur

Mae rhai awdurdodau lleol wedi datblygu eu systemau mesur pwrpasol eu hunain, gan ddefnyddio caffael agored, wedi'u hategu gan wybodaeth, sgiliau ac adnoddau mewnol. Wrth gwrs, mae gweithredu system newydd yn cymryd amser ac ymdrech. Er enghraifft, eglurodd un ymatebydd fod y broses hon wedi cymryd dros ddwy flynedd, ond bod eu system bellach yn bodloni eu gofynion ac yn gallu mesur yn ansoddol ac yn feintiol, yn seiliedig ar eu fframwaith gwerth cymdeithasol eu hunain.

Roedd ymatebwyr o'r farn bod ffocws ar fesurau cyllidol o ran sut y maent yn mesur gwerth cymdeithasol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddent yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu dulliau adrodd ansoddol i ddarparu darlun mwy cyflawn.

*"I mi, mae yna fesurau meintiol pur. Rwy'n deall pam mae pobl yn dibynnu arnynt, am eu bod yn rhoi mesur gwrthrychol, ond mewn gwirionedd nid yw'n adrodd yr holl stori bob tro, nid yw'n dangos canlyniadau, ac mae modd bodloni mesurau meintiol heb wneud llawer o wahaniaeth gwirioneddol; gallant droi'n rhyw nod wrthnysig*".

*"[mae angen] cydbwysedd rhwng y meintiol a'r stori ansoddol sy'n cael ei hadrodd, er mwyn adlewyrchu'r gwir effaith. Mae'n demtasiwn i fynd ati i gyfrif yr enillion yn unig, weithiau mae'n hawdd mynd ar drywydd y ffigyrau ac anghofio'r gweddill. Er enghraifft, er i ni gyflogi 15 prentis, dim ond pump wnaeth orffen y brentisiaeth mewn gwirionedd. Mae'n hawdd ystumio'r ffigyrau tydi?"*

## Themâu, Mesurau a Chanlyniadau Cymru

Roedd pryderon amlwg ynglŷn â themâu, mesurau a chanlyniadau Cymru, gyda llawer o ymatebwyr yn teimlo eu bod yn rhy gysylltiedig â phartner masnachol.

*"Roeddem yn credu y byddai pawb yn defnyddio'r dull hwn ac yn troi eu cefnau ar fuddion cymunedol yn raddol, gan ganolbwyntio ar themâu, mesurau a chanlyniadau, ond ni ddigwyddodd hynny. Yn bendant, bu cryn dipyn o anghysondeb oherwydd y ffordd y cafodd ei weithredu, rwy'n credu mai dyna yw'n pryder neu rwystredigaeth*".

*"Yr hyn sydd wedi fy mhoeni i yw bod pobl mor awyddus i ganfod rhyw ateb i werth cymdeithasol, i'w helpu gyda'u swyddi o ddydd i ddydd, ac mae hynny wedi'n harwain yn y pen draw at y model masnachol hwn. Nawr, boed dda neu beidio, nid dyma sut y dylid gwneud hyn yn y sector cyhoeddus mewn gwirionedd, rhoi triniaeth arbennig i ryw gwmni penodol, gan arwain at greu monopolïau*".

*"... mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng themâu, mesurau a chanlyniadau cenedlaethol Cymru a'r Porth Gwerth Cymdeithasol*".

*"A dweud y gwir, rydw i'n reit wrthwynebol i'r syniad o ddefnyddio rhywbeth gwahanol*

*i'r Themâu, y Mesurau a'r Canlyniadau, y rheiny ddylen ni ddefnyddio. Rwy'n credu bod y mater wedi cael ei ddrysu gyda'r achos busnes dros Borth Gwerth Cymdeithasol, sef dim ond un darparwr, un cyflenwr allan yna".*

*"Rwy'n credu bod pobl yn ei weld fel Porth Gwerth Cymdeithasol, mae ganddyn nhw gysylltiad rhy gryf ag ef. Mewn rhai ffyrdd, ymddengys mai dyna ran fawr o'r broblem".*

*"Mae'r ffordd y cafodd y Porth Gwerth Cymdeithasol ei werthu wedi cael beirniadaeth hallt. A'r gost gysylltiedig, o ran y Themâu, y Mesurau a'r Canlyniadau eu hunain. Mae wedi bod yn gymysg. Rwy'n synnu nad oes mwy o bobl wedi manteisio arno. Pan ddechreuon ni'r gwaith hwn, roedd beirniadaeth ynghylch y Pecyn Cymorth Buddion Cymunedol, gan ei bod yn daenlen anodd ei defnyddio. Ac, os defnyddir y themâu, y mesurau a'r canlyniadau fel taenlen, dyw hynny ddim yn lliniaru'r feirniadaeth am y Pecyn Cymorth Buddion Cymunedol yn fy marn i. Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd i'w cyflwyno wedi bod yn gymysglyd".*

*"Yna rydyn ni'n mynd i mewn i holl fusnes y Porth Gwerth Cymdeithasol, ac mae gen i fy marn am hynny. Nid ydw i'n credu y dylem fod wedi cyrraedd y sefyllfa hon, gyda pherthynas sydd wedi datblygu i'r fath raddau heb unrhyw rwymedigaethau cytundebol, heb unrhyw fath o sgwrs ynghylch hawliau eiddo deallusol. Mae'r sector cyhoeddus wedi rhoi ei amser a'i ymdrech am ddim i rywbeth sydd bellach yn gynnyrch masnachol hyfyw i ddarparwr masnachol. Rwy'n meddwl bod y peth yn warthus".*

Mae'r dyfyniad uchod yn tynnu sylw at y ffaith y treuliwyd llawer o amser ac ymdrech yn llunio themâu, mesurau a chanlyniadau Cymru, gan amrywiaeth o sefydliadau yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys CLlLC a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Mae nifer o awdurdodau lleol yn treialu'r themâu, y mesurau a'r canlyniadau ac mae'n ymddangos bod y dull hwn yn gweithio'n foddhaol mewn nifer o feysydd caffael. Roedd un sefydliad yn defnyddio'r daenlen themâu, mesurau a chanlyniadau:

*"Rydym ni wedi codi'r holl wybodaeth o Themâu, Mesurau a Chanlyniadau Cymru a'i osod mewn taenlen Excel. Dyna rydym ni'n ddefnyddio. Felly, rydym wedi comisiynu'r Porth Gwerth Cymdeithasol i wneud rhai cyflwyniadau a gweminarau, dim ond i addysgu'r tîm caffael ynghylch beth yw gwerth cymdeithasol, ond nid ydym yn mynd i ddefnyddio'r llwybr Porth Gwerth Cymdeithasol. Rydym ni'n gwneud popeth all-lein. Rydym ni'n creu ein tendrau ein hunain".*

Cododd un cyfwelai'r pwynt ynghylch cynnal a chadw'r themâu, y mesurau a'r canlyniadau:-

*"Byddai gen i bryderon ynghylch sicrhau bod y metrigau'n cael eu cynnal a'u monitro a'u cadw'n gywir. Ac maen nhw'n cael eu cynnal ar ryw fath o sail dreigl, bob tro y bydd y gyfradd chwyddiant yn newid neu rywbeth, pan fydd yr ystadegau'n newid yn y pen draw, pryd y dylid mesur hynny? Pwy sy'n gwneud hynny? Maen nhw'n dweud wrthym eu bod yn ei wneud am ddim, ac maen nhw'n ei wneud fel rhan o'r prosiect hwn, ond pwy sy'n gwirio?"*

Dywedodd cyfranogwr arall:-

*"Rwy'n credu ei bod yn wych cael y set genedlaethol o fesuriadau. Ond, gallwch bron â gweld pawb yn ei gwanhau. Mae pawb yn eu newid erbyn hyn. Ac, mewn gwirionedd, mae'n edrych yn hollol wahanol".*

Mae'n debyg hefyd fod consensws nad yw'r dull themâu, mesurau a chanlyniadau yn gweithio ym mhob lleoliad caffael, a gofal cymdeithasol yw'r maes sy'n peri'r pryder mwyaf. Fe wnaeth gweithwyr caffael proffesiynol sy'n gweithio yn y maes hwn o fewn Awdurdodau Lleol grybwyll y dulliau a amlinellwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac, yn benodol, Adran 16 sy'n ymwneud â modelau darparu gwerth cymdeithasol; gyda'r modelau hyn yn meddu ar ystyr ac ymagwedd wahanol o ran gwerth cymdeithasol yn ei ystyr gaffael fwy cyffredinol.

## Dull cyfannol

Mae nifer o awdurdodau lleol eisoes wedi ymgorffori gwerth cymdeithasol yn eu strategaethau, eu polisïau a'u swyddogaethau caffael a gallai'r dull hwn arwain at fuddion iddyn nhw.

*"...rydym ni'n dweud bod gwerth cymdeithasol yn gyfrifoldeb ar bawb. Nid fy nghyfrifoldeb i'n unig yw e, er fy mod yn rheolwr ac yn sicrhau cydymffurfiaeth. Mae'n gyfrifoldeb ar bawb o fewn y Cyngor".*

*"Mae gennym gynghorydd sy'n arwain ar fater gwerth cymdeithasol, maen nhw'n rhan fawr o'r daith ac yn gwneud llawer ac yn gefnogol iawn. Rydym yn cael ein cefnogi gan y cabinet a chan uwch reolwyr hefyd. Mae hyn yn golygu bod ein dull o ymdrin â gwerth cymdeithasol wedi datblygu'n gyflym ac mewn ffordd gyfannol, oherwydd eu cefnogaeth".*

*"Mae gwerth cymdeithasol yn rhoi mwy o sbardun i ni, mae'n debyg, a hynny yn rhannol am fod yn rhaid i ni wneud hyn ar draws y sefydliad, waeth beth fo'r ddeddfwriaeth, oherwydd ymrwymiad a brwdfrydedd yr uwch reolwyr dros hyn; mae wedi bod yn digwydd ar draws y sefydliad cyfan yn wir, hynny yw, yn syml, dyma beth rydym ni'n ei wneud bob dydd. Mae wedi bod yn wych i'w weld, oherwydd, mewn gwirionedd, mae newid diwylliannol yn datblygu mor araf fel arfer, ond mae hyn, a dweud y gwir, wedi bod yn gyflym iawn".*

*"Os yw caffael yn waith tîm, ar draws yr holl sefydliad, nid mater caffael yn unig yw gwerth cymdeithasol".*

*"Os yw gwerth cymdeithasol ond yn cael ei wneud mewn pocedi bychain, dim ond o fewn caffael neu yn y cam rheoli contractau, bydd yn cyfyngu ar ei effeithiolrwydd ac yn arwain at fethu cyfleoedd. Felly, mae cael swyddog gwerth cymdeithasol, sy'n cyfrannu at ddatblygiad amcanion llesiant ac at ddatblygiad cynlluniau a strategaethau corfforaethol, yn ffordd gadarnhaol o'i gwneud hi".*

*"... weithiau cyfeirir at gaffael fel swyddogaeth ystafell gefn, ond mae angen amlygu'r effaith y mae canlyniadau caffael yn ei chael ar gymuned. Efallai bod angen ychydig mwy o feddwl creadigol, neu ychydig mwy o gynllunio, ac mae gosod caffael ar lefel strategol yn gwneud gwahaniaeth mawr o ran effaith".*

*"Mae ein hamcanion corfforaethol yn newid. Rydym wedi ymrwymo ar yr adeg iawn, rydym wedi ymgynghori â'r tîm sy'n delio â'r strategaeth gorfforaethol ac yn dweud mai dyma'r pethau rydym ni'n feddwl sydd angen cael eu cynnwys o ran gwerth cymdeithasol. Rydym wedi cynnwys ein tîm cynaliadwyedd, hefyd. Felly, mae pawb wedi ymrwymo, gan sicrhau bod gwerth cymdeithasol yn cydredeg â'n gwerthoedd a'n hamcanion corfforaethol".*

O blith yr awdurdodau lleol a oedd wedi ysgrifennu strategaethau gwerth cymdeithasol, tynnwyd sylw at y meysydd canlynol:

- Datgarboneiddio a bodloni amodau Sero Net
- Buddion cymunedol, diweithdra hirdymor a phrentisiaethau
- Cyflogaeth foesegol
- Gwaith Teg
- Busnes lleol a'r economi genedlaethol
- Ymrwymiad cymdeithasol i gadwyni cyflenwi
- Adeiladu Cyfoeth Cymunedol
- Economi sylfaenol
- Economi gylchol
- Cysylltiadau â blaenoriaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, cysylltiadau â blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chynlluniau'r cyngor.

Cydnabuwyd hefyd, er mwyn cael sefydliadau i 'ymrwymo' i werth cymdeithasol, fod angen i bolisïau a gweithdrefnau ehangach gael eu hategu gan addysg a hyfforddiant.

### Effaith ar gyflenwyr

Mae'r gwahanol ddulliau o ymdrin â gwerth cymdeithasol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cael effaith ar gyflenwyr hefyd, yn enwedig busnesau bach a chanolig lleol. Hefyd, fel arfer, bydd goblygiadau cost i gyflenwyr os oes rhaid iddynt brynu meddalwedd mesur.

*"Y gŵyn gan gyflenwyr yw'r diffyg cysondeb yn y dulliau gweithredu. 'Rwy'n byw yng Nghyngor A, ac mae sefyllfaoedd lle bydd Cyngor A yn gwneud un peth tra bo Cyngor B, sydd 10 milltir i lawr y ffordd, yn gwneud rhywbeth hollol wahanol,' ac mae'r cyflenwr sy'n gweithio yn y ddwy ardal yn gorfod gwneud dau beth gwahanol. Felly, mae diffyg cydgysylltedd"*.

*"Ar hyn o bryd, pan fyddwch chi'n agor y daenlen, mae'n ddigon i'ch dychryn. Byddwch yn gweld yr holl gwestiynau hyn. Mae'n ddychrynllyd i ni sy'n gweithio ym maes caffael hyd yn oed, dychmygwch gyflenwr bach yn agor yr un daenlen ac yn gweld yr holl dermau"*.

*"Un peth sydd gen i yn erbyn y Porth Gwerth Cymdeithaso yw bod cyflenwyr yn mynd i orfod talu amdano. Bydd yn rhaid i'r ymgeisydd buddugol dalu ffi, ac nid ydym am ddieithrio busnesau bach a chanolig yn fwy fyth o ran cosbau ariannol a biwrocratiaeth. Hwyrach eu bod nhw wedi ennill y contract, ond i ni, mae gwerth ein contractau ni yn weddol isel o'u cymharu â'r awdurdod lleol. Felly os oes rhaid talu ychydig gannoedd o bunnoedd, byddai'n ormod i rai busnesau bach a chanolig lleol"*.

Ystyriwyd hefyd nad oedd llawer o fusnesau bach a chanolig â'r sgiliau angenrheidiol er mwyn cyflawni elfennau gwerth cymdeithasol y dogfennau tendro:

*"Rwy'n credu mai'r ffactor allweddol yn hyn oll, yw nad oes diben i bob awdurdod lleol roi tendrau sy'n cynnwys themâu, mesurau a chanlyniadau a mesurau gwerth cymdeithasol os na all y marchnadoedd ymateb iddynt"*.

*"Rydym ni'n symleiddio gwerth cymdeithasol, a hynny er mwyn denu cwmnïau a chyflenwyr lleol i geisio, oherwydd rydym ni wedi gweld bod llawer o gyflenwyr lleol yn peidio â bidio os yw'r broses yn ymddangos yn or-gymhleth"*.

Er mwyn caffael cyflenwyr lleol, roedd un sefydliad sector cyhoeddus sy'n gweithio ar draws nifer o wahanol siroedd yn bwriadu datblygu fframweithiau unigol fesul arbenigedd crefft, megis trydanwyr, peintwyr ac ati. Byddai'r gwahanol lotiau'n destun tendr ar lefel sirol a dim ond mewn un sir y gallai busnesau wneud cais am y tendr. Roeddent o'r farn y gallai hyn fod yn fodel ar gyfer y dyfodol.

## Adnoddau

Roedd yn amlwg bod llawer o dimau caffael wedi colli aelodau o staff, yn enwedig ar lefel uwch, a bod hyn yn effeithio ar weithredu dulliau gwerth cymdeithasol o fewn caffael:

*"Os edrychwn ar y dirwedd caffael proffesiynol yng Nghymru dros 20 mlynedd, pan fydd cyfarwyddwyr caffael yn symud ymlaen neu'n ymddeol, nid yw eu swyddi'n cael eu llenwi [yn uniongyrchol]. Yn hytrach, mae'r dyletswyddau'n cael eu symud i lefel is yn y sefydliad, yn cael eu gosod dan reolaeth cyfarwyddwyr cyllid y sefydliad, ac mae cyfarwyddwyr cyllid wastad yn chwilio am arbedion cost. Maent yn fframio caffael fel ymarfer arbed costau, yn hytrach nag ymarfer creu gwerth, ac mae hynny'n mynd yn ddwfn i wreiddiau diwylliant sefydliadau".*

*"Cafodd y Cyngor ei effeithio pan newidiwyd yr holl brif swyddogion, ac mae ein tîm ni mewn dryswch gan fod tri rheolwr llinell wedi gadael o fewn mis o'i gilydd. Rydym ni wedi llwyddo i sefydlogi'r tîm yn ddiweddar, ac rydym yn ceisio ailwampio'r broses gwerth cymdeithasol yn llwyr. Dydyn ni ddim lle'r ydym ni eisiau bod".*

*"Mae llawer o adrannau caffael yn fychan iawn, ac maen nhw'n cael trafferth cael deupen y llinyn ynghyd yn y math hwn o dendr ailadroddus, ac maent yn gwneud hynny ar eu pen eu hunain, yn cyflwyno llwythi o bolisïau ac amcanion newydd".*

Mae nifer fach o gyrff y sector cyhoeddus wedi llwyddo i ddyrannu adnoddau i werth cymdeithasol, yn enwedig trwy benodi swyddogion gwerth cymdeithasol a phenodi i swyddi rheoli contractau. Pan fo hyn yn cael ei wneud, ymddengys ei fod yn cael effaith gadarnhaol iawn ar weithredu gwerth cymdeithasol o fewn caffael, rheoli contractau a'r sefydliad yn ehangach.

*"Rydym ni'n buddsoddi adnoddau, mae gennym swyddog gwerth cymdeithasol penodol, ac fel awdurdod rydym ni'n arloesi, mae gennym ni gefnogaeth fewnol sy'n caniatáu hynny, yn ein caniatáu ni i fod ychydig yn greadigol".*

*"O'r cyntaf o Ebrill, bydd gennym dîm gwasanaeth cymorth rheoli contractau ar waith. A'r nod o ran hynny yw cyflawni'r holl bethau yr ydym wedi gweithio atynt. Bydd gwerth cymdeithasol yn fesur pan fyddwch yn edrych ar y contractau yn eu cyfanrwydd. Bydd popeth a fesurir trwy'r contract yn cael ei fesur gan y tîm rheoli contractau. A dyw gwerth cymdeithasol ddim gwahanol i unrhyw agwedd arall ar gytundeb a fydd yn cael ei gyflawni. Rydym ni'n mynd i wella o ran rheoli contractau, ac mae gwerth cymdeithasol yn un o'r agweddau hynny".*

## Arfer da a rhannu

Hoffai'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr gael y cyfle i rannu a dysgu o arfer da:

*"Rwy'n credu bod adolygiad Sophie Howe yn cyfeirio at hynny i raddau, trwy ddweud ein bod wedi gweld buddion cymunedol ond nad oes neb wedi rhannu arfer da na siarad amdano, doedd neb yn gwybod. Mae fel twll tywyll"*.

*"Mae fel petai neb yn fodlon rhannu'r hyn maen nhw wedi'i wneud. Rwy'n credu bod rhywfaint o hynny'n deillio o'r ffaith bod pawb ar siwrnai ar hyn o bryd, mae pawb fel petaent yn yr un sefyllfa â ni, a neb am wneud ymrwymiadau go iawn"*.

## Rôl Llywodraeth Cymru

Mae cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru eisiau i Lywodraeth Cymru gymryd perchnogaeth dros werth cymdeithasol. Mae llawer yn teimlo bod y diffyg arweinyddiaeth, yn enwedig dros y blynyddoedd diwethaf, wedi arwain at y darlun dryslyd sydd ohoni, a bod datblygu themâu, mesurau a chanlyniadau Cymru wedi chwarae rhan allweddol yn y dryswch hwn.

*"Fy neges i Lywodraeth Cymru yw y dylech fod wedi gwneud hyn i gyd yn fewnol. Mae gennych yr holl arbenigedd, mae gennych yr holl wybodaeth yn ddigidol, dylech fod yn cadw eich data eich hun, ni ddylech fod yn ei roi ar gontract allanol i rywun arall, ac adeiladu eu gwybodaeth fusnes hwy"*.

*"Nid oes unrhyw arweinyddiaeth wleidyddol yn y tîm caffael i fynd ar drywydd gwerth cymdeithasol"*.

*"Mae'n peri gofid, rwy'n meddwl, ac mae angen i Lywodraeth Cymru gael ei deffro, mae'r rhain yn weithwyr caffael proffesiynol profiadol, hyfforddedig, ac maen nhw'n ei chael hi'n anodd"*.

## Cyd-destun Ehangach

Wrth ystyried sut i symud ymlaen, o ran gwerth cymdeithasol, mae angen ystyried yr amgylchedd deddfwriaethol a pholisi ehangach hefyd, gan gynnwys:

- Diwygio'r broses gaffael
- Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru); gyda phwyslais ar gaffael cymdeithasol gyfrifol a gwaith teg
- Dyletswydd economaidd-gymdeithasol.
- Cytundeb Cydweithredu 2021 a'r Rhaglen Lywodraethu wedi'i diweddaru, sy'n annog prynu cynnyrch a gwasanaethau o Gymru.
- Datganiad Polisi Caffael Cymru
- Cynllun Gweithredu Datganiad Polisi Caffael Cymru; a'r camau gweithredu a nodir yn egwyddorion 1,3,7 a 10 yn enwedig.
- Dulliau'r Economi Sylfaenol a'r Economi Llesiant.

Nododd un cyfranogwr:

*"Os edrychwch ar rai o'r mentrau polisi yr ydym wedi'u datblygu dros y blynyddoedd, mae llawer o'r gwaith yn cysylltu â'r economi sylfaenol, ac â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Nod pob un o'r ffactorau polisi hyn yw sicrhau ein bod yn credu bod y bunt Gymreig yn aros yng Nghymru, a'n bod yn sicrhau'r gwerth gorau posibl i'n cymunedau.*

*"Ac felly, rwy'n credu bod llawer o'n mentrau polisi wir yn cefnogi gwerth cymdeithasol, ond rwy'n meddwl, does dim diffiniad clir o beth yw gwerth cymdeithasol a'r hyn y mae'n ei olygu'n ymarferol i awdurdodau contractio ac i gyflenwyr".*

Mae nifer o adroddiadau eraill hefyd wedi tynnu sylw at werth cymdeithasol mewn cyd-destun caffael, megis:

**CAFFAEL LLESIANT YNG NGHYMRU: Adolygiad o'r modd y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn trwytho caffael yng Nghymru**

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Chwefror 2021, a gwnaeth nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru sydd, er eu bod yn canolbwyntio ar weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, hefyd yn cyd-fynd yn glir â gweithredu gwerth cymdeithasol. Roedd yr argymhellion yn cynnwys y datganiadau canlynol:

*'Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Canolfan Ragoriaeth Caffael ar gyfer gwella cydgysylltu, cydweithredu a darparu cymorth ymarferol i gyrff cyhoeddus wrth iddynt arfer eu swyddogaethau caffael, yn benodol mewn perthynas â'r Ddeddf. Byddai datblygu'r Ganolfan Ragoriaeth yn gofyn am adolygiad a diwygiad hollgynhwysfawr o'r tirwedd caffael presennol (strwythurau, rhwydweithiau, partneriaethau a mentrau) gan gyrchu'r adnoddau i adeiladu capasiti a chynorthwyo gweithredu.'*

*'Mae cyfathrebu ac integreiddio gwael rhwng gwahanol flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â diffyg cefnogaeth i gyrff cyhoeddus i sicrhau bod y rhain yn cael eu gweithredu'n effeithiol ar lawr gwlad; Dylai Llywodraeth Cymru adolygu pob canllaw a phecyn cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd i gynorthwyo caffael cynaliadwy a mesur/monitro manteision cymunedol ac/neu werth cymdeithasol, a chyhoeddi cynllun clir yn amlinellu sut y bydd y rhain yn cael eu diwygio a'i cadarnhau i alluogi ymagwedd gyson, i'w dilyn gan gyrff cyhoeddus wrth adrodd ar y canlyniadau llesiant sy'n cael eu cyflawni.'*

*'Mae cyfleoedd i wneud gwariant i weithio'n galetach yn cael eu colli oherwydd diffyg cefnogaeth i'r proffesiwn caffael a diffyg atebolrwydd ar lefel arweinyddiaeth.'*

*'Nid oes unrhyw fonitro parhaus o ganlyniadau neu ymagweddau tuag at gaffael naill ai at ddibenion sylwi lle mae pethau'n mynd o chwith, a chyfleoedd yn cael eu colli, nac ar gyfer nodi a rhannu arfer gorau.'*

*'Nid yw cyfleoedd i gyflawni pob un o bedwar dimensiwn llesiant yn cael eu macsimeiddio, yn aml oherwydd diffyg arweinyddiaeth ac ymagwedd strategol sy'n cydnabod 'pŵer prynu'.*

*'Mae'r "system gaffael" yn rhy aml yn arwain at ffocws ar broses a chostau tymor byr yn hytrach na chyflawni canlyniadau ehangach dros yr hirdymor, ac nid oes unrhyw ddull cyson o fesur y canlyniadau y gellir eu gwireddu yn unol â'r Ddeddf. Mae angen symud tuag at ystyried y gost hirdymor mewn dull holistig, yn unol â'r Ddeddf.'*

*'Nid oes unrhyw fecanwaith ar gyfer hyrwyddo cydweithio effeithiol ar gyfer cyrff cyhoeddus, yn arbennig ar lefel traws-sector ar gyfer gwella rhannu, dysgu, gallu a sgiliau.'*

### Adeiladu Cyfoeth Cymunedol yng Nghymru (Adroddiadau rhanbarthol amrywiol, Gwanwyn 2022)

Roedd y gwaith a wnaed gan y Ganolfan Strategaethau Economaidd Lleol (CLES) yn canolbwyntio ar gaffael blaengar. Cynhaliwyd y gwaith ar lefel clwstwr BGC ac mae'r adroddiadau rhanbarthol a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn gwneud nifer o argymhellion yn ymwneud â gwerth cymdeithasol, megis:

*'Sicrhau dull cymesur o ymdrin â buddion cymunedol a gwerth cymdeithasol er mwyn sicrhau'r buddion gwerth cymdeithasol mwyaf posibl o gontractau mawr, a hynny heb greu beichiau ychwanegol i gyflenwyr lleol, llai.'*

O ran caffael bwyd:
*'Mae CLES o'r farn mai'r sbardun allweddol i ysgogi newid drwy gaffael bwyd yn y sector cyhoeddus wrth symud ymlaen yw rhoi mwy o bwyslais ar werth cymdeithasol yn erbyn pris wrth wneud penderfyniadau caffael. Dylai'r dull hwn gael ei arwain gan bolisi, gyda'r dulliau caffael yn cefnogi amcanion polisi y cytunwyd arnynt, heb gael ei dywys gan gaffael yn unig.'*

*'Fel y soniwyd yn gynharach, gall bwyd gael effaith ar draws y Nodau Llesiant. Mae cyfle yma i bartneriaid ar draws y BGC gytuno ar eu blaenoriaethau yn hyn o beth (tarddiad, iechyd y cyhoedd, lleihau carbon ac ati) ac i ddatblygu pwysoliadau gwerth cymdeithasol yn unol â hynny, gan ystyried dull mwy mentrus – er enghraifft, pwysoliad o 20-30% neu fwy o ran gwerth cymdeithasol'.*

### Caffael yn yr Economi Sylfaenol; Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau (Chwefror 2020)

Mae'r paragraffau isod, a gymerwyd o'r adroddiad hwn, yn amlygu nifer o faterion sy'n ymwneud â gwerth cymdeithasol:

*'Mae'r rhwystrau i yrru gwerth cymdeithasol trwy gaffael cyhoeddus yn hysbys. Maent yn cynnwys diffyg sgiliau a chapasiti, anhawster wrth fesur canlyniadau a rhannu arferion gorau, a diffyg arweinyddiaeth i godi statws caffael a phrif ffrydio'r ymgyrch am werth cymdeithasol o fewn cyrff caffael.'*

*'Mae cymhwyso meini prawf gwerth cymdeithasol cryf i'r broses gynnig yn cael ei gydnabod yn eang fel arfer da, ond mae hefyd yn bwysig cael system dda ar gyfer gwerthuso'r hyn y mae'r contractwyr yn ei ddarparu a sut maen nhw'n perfformio. Er enghraifft, a yw'r contractwyr mewn gwirionedd yn cyrraedd y targedau ar gyfer prentisiaethau a hyfforddiant y cytunwyd i anelu atyn nhw fel rhan o'r broses ymgeisio a chontractio?'*

## Casgliad

Ni ddylai'r canfyddiadau a amlinellir yn yr adroddiad hwn fod yn syndod i neb, ac mae'r gwaith ymchwil wedi cadarnhau'r 'dirwedd gwerth cymdeithasol' ddryslyd sy'n bodoli yng Nghymru. O ran symud y trafodaethau yn eu blaen, mae cyrff y sector cyhoeddus yn disgwyl i Lywodraeth Cymru roi arweiniad a chyfeiriad clir.

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid am ei nodau a'i chynlluniau mewn perthynas â gwerth cymdeithasol, gan dynnu sylw at amserlenni a cherrig milltir allweddol. Wrth i'r drafodaeth esblygu, rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod grŵp amrywiol o randdeiliaid yn cael eu cynnwys.

Trafodwyd a diwygiwyd yr argymhellion a amlinellir isod yn dilyn dau weithdy gyda nifer cyfyngedig o randdeiliaid allweddol. Roedd y rhanddeiliaid a aeth i'r gweithdai i gyd wedi cymryd rhan yng nghyfnod cyfweliadau'r ymchwil hon.

## Argymhellion

1. O safbwynt caffael, dylai Llywodraeth Cymru gymryd yr awenau gyda dull Cymru gyfan o ymdrin â gwerth cymdeithasol, a dylent ddarparu adnoddau i'r ymrwymiad hwn yn effeithiol.

2. Mae angen diffinio gwerth cymdeithasol yn glir, yng nghyd-destun Cymru. Dylai'r diffiniad hwn gynnwys elfennau cymdeithasol (gan gynnwys gwaith teg), economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

3. Gwerthusodd y cyfranogwyr mai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r sbardun deddfwriaethol yng Nghymru yn hytrach na'r Ddeddf Gwerth Cymdeithasol, ac mai drwy'r lens hwn y dylid ystyried gwerth cymdeithasol. Felly, argymhellir y dylid ystyried defnyddio'r termau gwerth/buddion/canlyniadau llesiant yn hytrach na gwerth cymdeithasol, yng Nghymru.

4. Mae angen i'r fethodoleg a ddefnyddir i fesur gwerth cymdeithasol, yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, fod yn gyson. Mae angen i Lywodraeth Cymru arwain yn y maes hwn. Yn ymarferol, mae hyn yn debygol o olygu y bydd angen darparu cymorth i sicrhau cysondeb o ran mabwysiadu a chymhwyso.

5. Mae angen i'r fformat a'r canllawiau ar gyfer adrodd ar werth cymdeithasol hefyd fod yn gyson ledled Cymru. Dylid ystyried sut y byddai hyn yn ategu at neu'n effeithio ar ofynion adrodd eraill, megis y rhai sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
Dylid defnyddio dulliau ansoddol a meintiol i fesur ac adrodd ar werth cymdeithasol. Dylid datblygu canllawiau i gefnogi adrodd. Mae cyfle i adrodd am werth cymdeithasol yn ganolog, a byddai hyn yn fodd o rannu arfer da, o werthuso a dysgu.

6. Dylai unrhyw ddull newydd o ymdrin â gwerth cymdeithasol gydredeg â diwygio'r broses gaffael a Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) sydd ar y gweill. Mae cyfle hefyd i gysoni terminoleg ac adrodd.

7. Mae angen rhoi cymorth parhaus i gaffaelwyr, prynwyr a chyflenwyr.

Yn gyffredinol, nid oes gan dimau caffael ddigon o adnoddau, ac mae angen ystyried hyn wrth i'r dull gwerth cymdeithasol ddatblygu.

Mae rheoli contractau yn allweddol i wireddu ac adrodd ar werth cymdeithasol. Mewn llawer o sefydliadau yn y sector cyhoeddus, nid oes digon o adnoddau ar gael ar gyfer hyn. Mae angen ystyried hyn hefyd wrth i syniadau ddatblygu.

Mae angen sefydlu prosesau i ganiatáu i dimau caffael ddatblygu sgiliau a gallu.

Mae angen sefydlu mecanweithiau hefyd i rannu arfer da. Gellid gwneud hyn drwy gymuned ymarfer neu drwy addasu rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes.

Mae angen rhoi gwybod i'r farchnad gyflenwyr ac i asiantaethau cymorth busnes am y goblygiadau tebygol, yn ogystal ag amserlenni a newidiadau arfaethedig.

**Sylwer**: ni chyfeiriwyd at rôl y Ganolfan Ragoriaeth Caffael Genedlaethol arfaethedig, oherwydd ystyriwyd ei bod yn ddyddiau cynnar o hyd ar drafodaethau am y Ganolfan.

cwmpas

T: 07771 924 290
E: sarah.evans@cwmpas.coop

cwmpas.coop

Cwmpas is a registered society under the Co-operative and Community Benefit Societies Act 2014, number 24287 R.

Mae Cwmpas yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.